Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Ogwen
# Ffordd Coetmor
# Bethesda
# Gwynedd
# LL57 3NN

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgol uwchradd naturiol ddwyieithog sydd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref fechan Bethesda ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae 1.2% o'r disgyblion yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 466 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae hyn yn uwch nag ar adeg yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2012 lle 'roedd 360 o ddisgyblion. Mae 57 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae 10% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%. Mae 23% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd yn debyg iawn i'r ganran genedlaethol. Mae gan 3.3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 2.2%.

Daw tua 78% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd ac mae'r rhan fwyaf yn rhugl yn y Gymraeg.

Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgybl â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn barhaol yn Medi 2018 ar ôl cyfnod o flwyddyn fel pennaeth mewn gofal. Mae dau ddirprwy ac un pennaeth cynorthwyol hefyd ar yr uwch dîm arwain.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Dyffryn Ogwen yn gymuned glós a gofalgar ac mae’r berthynas rhwng y disgyblion a’r holl staff yn nodwedd gadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol ac yn elwa yn fawr o’r cyfleoedd gwerthfawr sydd ar gael i ddysgu am hanes a diwylliant lleol ac i gyfrannu at fywyd yr ysgol a’r gymdeithas. Mae’r athrawon a’r staff cymorth yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac maent yn gefnogol iawn ohonynt.

Yn gyffredinol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Nid yw’r cyfleoedd a roddir iddynt i ddatblygu medrau pynciol, llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ddigon cadarn er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial.

Dros y tair blynedd diwethaf, nid yw arweinyddiaeth wedi dylanwadu’r gadarnhaol ar safonau yng nghyfnod allweddol 4. Yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd, mae uwch dîm arwain newydd nawr yn ei le. Yn ddiweddar iawn, mae’r tîm hwn wedi adnabod y prif feysydd i’w gwella ac wedi rhoi gweithdrefnau priodol ar waith i ymateb i’r blaenoriaethau hyn. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i fesur effaith y gweithdrefnau newydd ar safonau disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau

A2 Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion, yn enwedig mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A4 Gwella ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel

A5 Grymuso prosesau rheoli perfformiad a sicrhau trefn atebolrwydd glir

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwella ar frys**

Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau pynciol a'u medrau llythrennedd, rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae mwyafrif y disgyblion yn dwyn i gof wybodaeth flaenorol yn briodol ac yn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth honno wrth gwblhau tasgau newydd. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent oherwydd diffyg cyfleoedd i ymestyn eu dealltwriaeth ac i ddatblygu eu medrau. Dim ond mewn ychydig iawn o wersi mae llawer o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu dealltwriaeth o'r pwnc ac maent yn arddangos medrau llythrennedd cryf.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar yr athro ac ar ei gilydd. Pan gânt y cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu'n rhwydd yn y Gymraeg gyda'i gilydd mewn grwpiau bach. Fodd bynnag, maent yn defnyddio llawer o eiriau Saesneg wrth siarad. Nid oes ganddynt afael cadarn ar eirfa gyffredinol gyfoethog nac ar eirfa bynciol amrywiol. Gan nad oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar mewn gwersi, drwyddi draw, mae llawer o'r disgyblion yn amharod i gyfrannu ar lafar. Maent yn ddi-hyder wrth ateb cwestiynau ac yn cynnig atebion byr iawn. Mewn ychydig iawn o wersi, lle ceir awyrgylch ysgogol a chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llafaredd, mae llawer o ddisgyblion yn cynnig ymatebion estynedig sy'n egluro eu barn yn glir. Yn y gwersi hyn, maent yn ymhelaethu ar eu safbwyntiau yn huawdl ac yn meddu ar ieithwedd gywir a geirfa gyfoethog.

Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn ystyrlon, er nad ydynt yn gwneud hyn yn hyderus. Maent yn caffael gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testun yn llwyddiannus, er enghraifft wrth esbonio pererindod merch ifanc i Lourdes yn y gwersi addysg grefyddol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n arddangos uwch fedrau darllen cadarn, megis dadansoddi nodweddion arddull mewn testunau ac esbonio'u heffaith ar y darllenydd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn ddeheuig iawn, er enghraifft wrth ddadansoddi sut ddarlun mae'r bardd Gwenallt yn ei greu yn ei gerdd 'Trychineb Aberfan'.

Mae mwyafrif y disgyblion yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau ond, yn rhy aml, maent yn mynegi eu hunain mewn brawddegau byrion a chydag ystod cul o eirfa. Mae diffygion yn sillafu, atalnodi a gramadeg lleiafrif arwyddocaol o ddisgyblion ac maent yn gwneud gwallau esgeulus, cyson yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn arddangos medrau ysgrifennu cryf yn y Gymraeg ac yn mynegi eu hunain yn eglur a chyda geirfa soffistigedig. Maent yn hyderus i amrywio ac arbrofi gydag idiomau a chyffelybiaethau er mwyn creu darnau ysgrifenedig gwreiddiol a chofiadwy,er enghraifft wrth greu ymson y bachgen Suva wrth ymateb i drychineb mewn ffatri ym Mangladesh. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau buddiol i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig yn y Saesneg, megis cyflwyno ystadegau, gofyn cwestiynau rhethregol a defnyddio idiomau'n gelfydd.

Yn y gwersi mathemateg, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o dechnegau rhif, er enghraifft i gyfrifo hyd, arwynebedd a chyfaint ac wrth drafod canrannau a ffracsiynau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn sicr o ffeithiau a rheolau pwysig megis sut i ddefnyddio theorem Pythagoras. Mae disgyblion llai galluog yn ansicr wrth ddefnyddio tablau. Mewn ychydig o bynciau heblaw mathemateg, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhif yn briodol. Er enghraifft, yn y gwersi addysg gorfforol, maent yn llwyddiannus wrth gyfrifo cyflymder rhedwr mewn ras. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau rhifedd i ddatrys problemau pob dydd mewn gwersi priodol ar draws yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn addas drwy ddefnydd o ystod briodol o raglenni digidol yn eu gwersi TGCh. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn y medrau hyn ar draws y pynciau.

Pan mae cyfleoedd yn codi, mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos medrau meddwl cadarn. Maent yn ymateb yn briodol i dasgau ac yn cydweithio'n gynhyrchiol mewn parau i ddatrys problemau. Er enghraifft, yn y gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn dod i gasgliadau ystyrlon ac aeddfed wrth bwyso a mesur os oes croeso i ffoaduriaid yng Nghymru neu beidio. Yn y gwersi hanes, mae disgyblion yn datblygu medrau meddwl dwys wrth ystyried a yw Harri'r Seithfed yn haeddu ei le fel arwr Cymru.

Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi dirywio'n flynyddol dros y tair blynedd diwethaf ac mae'n llawer is na pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad y disgyblion sydd yn gymwys i brydau ysgol am ddim wedi amrywio dros yr un cyfnod ond mae'n gyson is na pherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Ychydig o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd yn ennill cymwysterau lefel 2 yn y pynciau craidd ond dim ond ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi gadael yr ysgol yn ddigymhwyster yn y pedair blynedd diwethaf.

Yn y chweched dosbarth, mae nifer y disgyblion sydd yn ennill o leiaf 3 chymhwyster lefel 3 yn nodedig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer y disgyblion sydd yn cwblhau eu cyrsiau yn nodwedd gadarnhaol. Fodd bynnag,ar y cyfan, nid ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd â disgyblion gyda lefelau cyrhaeddiad blaenorol tebyg mewn ysgolion eraill.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod trefniadau priodol i ddelio ag achosion o fwlio. Maent yn ymwybodol o gefnogaeth staff os oes unrhyw broblem yn codi.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos parch at eu hathrawon. Maent yn ymfalchïo yn y berthynas gefnogol a chlós sydd yn bodoli rhyngddynt a staff yr ysgol. Credant fod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn gwrando arnynt a bod eu barn yn bwysig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd yn brydlon i'w gwersi ac maent yn ymddwyn yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn ddigon ystyriol o eraill wrth symud o wers i wers ac maent yn ansicr ynghylch sut i ymddwyn gydag ymwelwyr.

Ar y cyfan, mae gan fwyafrif y disgyblion agwedd gadarnhaol at eu gwaith ac maent yn bwrw ymlaen â thasgau yn briodol ac yn cydweithio'n addas mewn grwpiau.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn ymdrechu'n ddigon caled mewn tasgau unigol neu grŵp ac maent yn bodloni ar gynnig ymatebion byr iawn ar lafar neu gyflwyno y lleiafswm o waith.  Lle ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau dysgu annibynnol ac i ysgogi'r meddwl, mae ychydig o ddisgyblion yn arddangos cymhelliant cryf i ddysgu.  Maent yn dyfalbarhau gyda gwaith mwy astrus ac yn ymateb yn frwdfrydig i her.

Mae llawer o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn eu helpu'n briodol i ddeall pwysigrwydd byw'n iach a sut mae bwyta ac yfed yn iach yn effeithio ar eu hiechyd. Mae mwyafrif y disgyblion yn elwa drwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon a lles tu allan i wersi megis caiacio, sboncen a yoga.

Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau cydweithio gwerthfawr trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft wrth gydweithio i greu gwefan am ''Ein Dyffryn Ni'' yng nghystadleuaeth genedlaethol yr Urdd a chystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.  Enillodd y tîm criced merched wobr Ysgol Uwchradd y Flwyddyn Ym Mhrydain yn 2017 gyda'r rhaglen 'Chance to Shine' sy'n hybu cyfleoedd i ferched.

Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu medrau gwerthfawr o gydweithio gydag eraill drwy gynnal sesiynau cefnogaeth llythrennedd i blant iau yr ysgol a thrwy gynnal clwb gwyddoniaeth.  Mae'r grŵp disgyblion 'Bwyd a Maeth' wedi cydweithio'n gynhyrchiol gyda staff yr ysgol ac wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar yr arlwy yn y ffreutur drwy sicrhau dewis helaeth o fwydydd iach.  Ymdrechodd aelodau'r Cyngor Ysgol i wella'r amgylchedd drwy osod meinciau o amgylch y safle ac maent wedi llwyddo i leihau'r defnydd o blastig yn sylweddol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon berthynas gadarnhaol gyda'u disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad yn briodol ac yn sicrhau awyrgylch anogol i ddysgu. Maent yn gefnogol o'u disgyblion ac yn eu hadnabod yn dda.  Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid ydynt yn sicrhau lefel o her neu gefnogaeth briodol i ddisgyblion o wahanol alluoedd i ganiatáu iddynt gyrraedd eu potensial.

Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer sicrhau cynnydd cadarn iawn yn nealltwriaeth bynciol disgyblion ar sail eu cyflawniad blaenorol.  Maent yn cynllunio tasgau heriol, pwrpasol sydd o ddiddordeb i'r disgyblion ac yn ysgogi'r dysgu.  Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio tasgau sy'n cynnal diddordeb y disgyblion. Maent yn cyflwyno esboniadau priodol ac yn fodelau iaith addas.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r arweiniad a'r cymorth gan yr athro yn ddigonol i sicrhau bod disgyblion llai abl yn deall gofynion tasgau yn llawn.  Yn ogystal, yn gyffredinol, nid yw disgwyliadau athrawon o beth y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel.  Mae diffygion yn y cynllunio yn cynnwys gosod tasgau nad ydynt yn cynnig digon o her i ddisgyblion, cyfradd ddysgu araf neu dasgau'n mynd ymlaen yn rhy hir.  Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu

medrau llafaredd disgyblion oherwydd eu bod yn siarad gormod eu hunain ac yn rheoli'r dysgu yn ormodol. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i drafod mewn grwpiau, i ddatblygu medrau meddwl ac i weithio'n annibynnol o'r athro.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ymateb yn briodol i waith disgyblion unigol wrth fynd o amgylch y dosbarth. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn holi cwestiynau yn effeithiol iawn. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o gwestiynu agored a heriol i sbarduno trafodaeth ac i wneud i ddisgyblion feddwl yn ddwys iawn. Maent yn cynnig esboniadau clir o ddisgwyliadau ac yn gwneud defnydd cynhyrchiol o atebion disgyblion i symud y dysgu ymlaen. Mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau pynciol a'u medrau meddwl. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio cwestiynu yn ddigon effeithiol i wirio dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion ac i ddatblygu rhain ymhellach. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion fodelu atebion neu i gyflwyno eu gwaith o flaen eu cymheiriaid er mwyn sbarduno trafodaeth am ansawdd a chywirdeb eu gwaith. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn aml yn ansicr ynghylch disgwyliadau a gofynion tasgau, yn enwedig y disgyblion llai abl.

Nid yw athrawon mewn ychydig o wersi yn gosod disgwyliadau digon uchel o ran cywirdeb a ffurfioldeb iaith lafar y disgyblion ac nid ydynt yn cywiro iaith fratiog yn ddigon aml.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig llwybrau dysgu addas gydag amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion a'r colegau addysg bellach lleol i ehangu'r arlwy i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag ysgolion cynradd partner i drefnu gweithgareddau pontio addas sydd yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae trefniadau addas i gynorthwyo datblygiad medrau disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Cynigia'r ysgol gyfleoedd gwerthfawr i gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'u hanes a'u diwylliant lleol trwy astudio Streic Chwarel y Penrhyn a gwaith Caradog Prichard. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth eang a llwyddiannus o brofiadau i gyfoethogi'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau 'Amdani' sy'n datblygu medrau arwain y disgyblion iau, yr wythnos sgiliau a'r wythnos gweithgareddau. Mae darpariaeth briodol o weithgareddau sy'n cysylltu'r ysgol a'r disgyblion gyda'r gymuned leol. Er enghraifft, ceir cyfle gwerthfawr i ddisgyblion ymaelodi â'r llyfrgell leol a datblygu cyfleoedd cymunedol buddiol trwy waith y 'Grŵp Llechi'. Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygu diddordeb a medrau mewn chwaraeon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol i addysgu disgyblion am fanteision medru'r Gymraeg a bod yn ddwyieithog. Enghraifft nodedig o hyn yw'r prosiect ar y cyd gyda Gyrfa Cymru i greu uned sy'n hybu dealltwriaeth pobl ifanc o werth dwyieithrwydd yn y byd gwaith.

Mae'r cydlynydd llythrennedd wedi creu gwefan o ansawdd uchel iawn ar gyfer athrawon pwnc i'w cynorthwyo i gynllunio tasgau llythrennedd gwerthfawr. Mae hyn

yn cynnwys adnoddau pwrpasol iddynt i'w cynorthwyo i gynllunio tasgau cyfoethog. Mae trefniadau ar gyfer rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn llai datblygedig.

Prin yw'r cyfleoedd i ysgogi a chodi cyflawniad y disgyblion mwy abl a thalentog y tu mewn a thu allan i'r gwersi. Mae'r ysgol yn cynnal grwpiau ymyrraeth llythrennedd a rhifedd buddiol ar gyfer disgyblion gyda medrau gwan. Nid yw athrawon yn gwneud defnydd digonol o'r wybodaeth sydd yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion gydag AAA wrth gynllunio a chyflwyno gwersi er mwyn bodloni eu anghenion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn gymuned glòs a gofalgar sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad buddiol i'w disgyblion. Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin ethos cefnogol sy'n hybu lles y disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion yn gadarn. Mae rhain yn cynnwys systemau gwobrwyo effeithiol a chydweithio llwyddiannus gyda rhieni a'r swyddog lles.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol iechyd a chymdeithasol. Mae'r ystafelloedd cynhwysiant, fel 'Hafan Charlotte', yn darparu awyrgylch tawel ac anogol iddynt, ac mae gan yr ysgol rhaglenni cadarnhaol ar gyfer hyrwyddo datblygiad personol pob disgybl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn briodol. Gwna'r ysgol ddefnydd buddiol o staff ategol i ddarparu cefnogaeth gymwys i'r disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol werthfawr i ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud digon o ddefnydd o broffiliau unigol y disgyblion er mwyn bodloni anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cryfhau'r systemau olrhain cynnydd ysgol gyfan a'r rhai adrannol. Mae'r trefniadau newydd yn briodol ac yn galluogi arweinwyr i adnabod unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion sy'n tangyflawni. Fodd bynnag, dros amser, ni fu trefniadau'r ysgol i osod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ac nid oedd arweinwyr yn mynd i'r afael â thanberfformio disgyblion yn ddigon gofalus.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n gyson gyda rhieni, trwy gylchlythyron a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynir adroddiadau gwaith interim a blynyddol cryno iddynt sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am gynnydd y dysgwyr gan adnabod eu cryfderau a'u gwendidau. Mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chyngor defnyddiol i ddisgyblion o ran opsiynau pwnc a dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Gwneir hyn trwy wasanaethau'r ysgol, siaradwyr gwadd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol addas. Mae'r rhaglen hon yn helpu disgyblion i fyw bywydau corfforol ac emosiynol iach. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Trefnir teithiau addysgol buddiol, fel i'r theatr yn Venue Cymru Llandudno a'r Amgueddfa Natural History yn Llundain. Mae'r ysgol yn cynnal noson garolau gymunedol boblogaidd yn Eglwys Glan Ogwen yn flynyddol.

Ceir trefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach Mae hefyd llawer o gyfleoedd llesol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd.

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau am fywyd yr ysgol drwy greu Grwpiau Llais ar gyfer pynciau'r cwricwlwm ac ar gyfer materion eraill megis gwaith amgylcheddol a strategaeth iaith. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i fesur effaith y trefniadau hyn ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Ers ymddeoliad y cyn bennaeth, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd gyda phennaeth mewn gofal yn arwain am gyfnod ac aelodau dros dro yn rhan o'r uwch dîm arwain. Penodwyd y pennaeth mewn gofal yn barhaol yn Ebrill 2018 ac, yn Ebrill 2019, penodwyd dirprwy ychwanegol o'r tu allan i'r ysgol i'r tîm. Penodwyd pennaeth cynorthwyol newydd ym Medi 2019. Mae'r ddau ddirprwy a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol ac yn gefnogol iawn o'r pennaeth. Mae gan yr uwch dîm arwain weledigaeth glir sy'n seiliedig ar fod yn ysgol sydd yn 'adlewyrchu'r gymuned naturiol Gymreig y mae'n rhan ohoni gan roi pwyslais ar ddatblygu dwyieithrwydd ein disgyblion'.

Ailstrwythurwyd cyfrifoldebau'r uwch dîm arwain gan ddosbarthu cyfrifoldebau'n addas i ganolbwyntio ar arwain y prif feysydd strategol. Mae gan yr holl aelodau swydd ddisgrifiadau addas sy'n blaenoriaethu cyfrifoldebau strategol. Yn ogystal, maent yn arwain ar agweddau penodol o ddysgu ac addysgu a lles disgyblion. Aildrefnwyd y strwythur rheolaeth llinell gyda'r pennaeth yn cadw trosolwg dros waith cyswllt yr uwch dîm arwain yn briodol. Er bod mwyafrif o aelodau'r uwch dîm arwain yn newydd yn eu rolau, maent wedi llwyddo i osod prosesau clir yn eu lle i fonitro gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o brif gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol o ran ei darpariaeth. Serch hynny, mae llawer o'r prosesau hyn yn newydd iawn a heb gael digon effaith ar godi safonau nac ar wella ansawdd yr addysgu.

Aildrefnwyd rolau'r tîm cynnydd ym Medi 2019 fel bod ffocws mwy penodol ar olrhain cynnydd disgyblion er mwyn codi safonau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi llunio rhaglen eang i ddatblygu medrau arweinyddiaeth arweinwyr canol.

Mae mwyafrif o arweinyddion canol yn adnabod y gwendidau a chryfderau o fewn eu meysydd yn effeithiol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth yma yn ddigon llwyddiannus er mwyn codi safonau a gwella ansawdd yr addysgu. Nid yw mwyafrif o arweinwyr canol yn gosod disgwyliadau digon uchel i'r disgyblion er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae arweinwyr canol yn dechrau gwneud defnydd pwrpasol o ddadansoddi data perfformiad disgyblion er mwyn adnabod agweddau penodol sydd angen gwella.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn deyrngar iawn i'r ysgol. Maent yn ymwybodol o brif gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol. Drwy eu gwaith cyswllt, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o waith yr adrannau. Serch hynny, nid yw'r llywodraethwyr wedi llwyddo i herio'r ysgol yn ddigonol i godi safonau disgyblion ac i wella ansawdd yr addysgu. Mae gan y llywodraethwyr drefniadau cadarn i reoli cyllid ac maent yn sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio'i chyllid yn briodol er mwyn cynnal y cwricwlwm a sicrhau profiadau gwerthfawr i'r disgyblion. Gwneir defnydd priodol o

grantiau ariannol fel y grant datblygu disgyblion ac, yn sgil hyn, mae presenoldeb disgyblion sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella dros amser.

Yn ddiweddar, grymusodd yr ysgol ei strwythur o arfarnu a chynllunio gwelliant er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol gyda phwyslais priodol ar ddefnyddio data yn ddeallus. Ceir gweithdrefnau priodol sy'n casglu tystiolaeth uniongyrchol drwy arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a holi llais y dysgwyr. Mae'r gweithdrefnau hyn yn rhoi darlun clir i arweinwyr o gryfderau a meysydd datblygu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r holl wybodaeth yma'n ddigon strategol er mwyn cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol raglen addas o hyfforddiant mewnol ble mae staff yn rhannu arferion da dysgu ac addysgu. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, crëwyd pecynnau gwerthfawr sy'n arddangos arferion addysgu effeithiol ar themâu megis gwella cysondeb ansawdd adborth i ddisgyblion. Er bod cyfleoedd helaeth i athrawon gymryd rhan mewn profiadau dysgu proffesiynol yn yr ysgol, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar safonau ac ansawdd addysgu yn yr ysgol.

Mae strwythur clir i drefniadau rheoli perfformiad y staff. Pennir targedau addas sy'n cynnwys blaenoriaethau codi safonau yn ogystal â blaenoriaethau o gynllun gwella'r ysgol. Nid oes cysylltiad digon clir rhwng blaenoriaethau rheoli perfformiad unigolion a'r hyfforddiant a drefnir i fodloni'r targedau gwelliant.

Serch yr holl ansefydlogrwydd, mae'r ysgol bellach mewn sefyllfa gadarnach o ran aelodaeth barhaol yr uwch dîm arwain. Mae ganddynt weledigaeth glir, strwythurau mwy grymus a gafael gadarn ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019